PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Polisi Recriwtio a Dewis

| Adolygwyd | Dyddiad | Pwrpas cyhoeddi/Disgrifiad o’r newid | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|
| 1. | | Adolygiad o’r polisi, ac wedi ei gymeradwyo gan y Grwp Strategaeth Adnoddau Dynol | 21.04.26 |
| | | | |
| | | | |

| Swyddog polisi | Uwch swyddog cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Prif Swyddog Pobl | Prif Swyddog Pobl | Grŵp Tasg AD | 15 Ionawr 2014 |

## Pwrpas y Polisi

Yn ei chynllun strategol, mae'r brifysgol yn cydnabod mai:

*"Pobl yw ein hadnodd allweddol a bydd y brifysgol yn creu amgylchedd cadarnhaol lle bydd staff yn ffynnu fel partneriaid yn llwyddiant y brifysgol."*

*A:*

*"Mae rhoi profiad o ansawdd uchel i staff yn flaenoriaeth ac mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd teg a chynhwysol i staff, gan ei gwneud yn gyflogwr y bydd pobl eisiau gweithio iddi a chefnogi staff i gyrraedd eu llawn botensial a gwerthfawrogi cyfraniad pawb yn yr un modd."*

- Pwrpas y polisi hwn yw nodi ymrwymiad y brifysgol i broses recriwtio a dewis sy'n galluogi'r brifysgol i recriwtio staff ar sail meini prawf gwrthrychol sy'n deg a chyfiawn ac yn rhydd o ragfarn.
- Mae'r gweithdrefnau sy'n cyd-fynd â'r polisi yn rhoi arweiniad clir ar y camau yn y broses recriwtio a dewis ac yn ategu ymrwymiad y brifysgol a amlinellir yn y polisi hwn.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu pob gweithgaredd sy'n ffurfio rhan o'r broses recriwtio a dewis. Mae'n berthnasol i bob proses recriwtio staff, yn cynnwys recriwtio mewnol ac allanol ac i'r holl staff sydd â chontractau parhaol a chontractau cyfnod penodol.

## Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Pobl, sy'n adrodd i'r Pwyllgorau perthnasol a'r Pwyllgor Gweithredu yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ar draws y brifysgol.

Deoniaid colegau, penaethiaid ysgolion a phenaethiaid gwasanaethau proffesiynol sy'n gyfrifol am y polisi o fewn y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol.

## Egwyddorion Craidd

1. Mae'r brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth gyflogaeth gyfredol.
2. Mae'r brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i dyletswyddau penodol cysylltiedig, a bydd yn trin pob ymgeisydd yn deg ac yn gyfartal beth bynnag eu nodwedd warchodedig.
3. Mae'r brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
4. Mae gan y brifysgol egwyddor o gystadleuaeth agored yn ei dull o ymdrin â recriwtio.
5. Bydd y brifysgol yn ceisio recriwtio'r ymgeisydd gorau i'r swydd ar sail teilyngdod. Bydd gweithdrefnau a chanllawiau ategol yn darparu fframwaith i sicrhau bod y broses yn adnabod yr unigolyn sy'n bodloni meini prawf y swydd orau.

6. Er mwyn sicrhau tegwch, bydd y brifysgol yn gweithio gydag ymgeiswyr anabl i wneud addasiadau rhesymol i bob cam o'r broses recriwtio.
7. Bydd y brifysgol yn sicrhau yr ymgymerir â'r broses o recriwtio a dewis staff mewn dull proffesiynol, amserol ac ymatebol ac yn unol â deddfwriaeth gyflogaeth gyfredol.
8. Bydd y brifysgol yn darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth i bawb sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio a dewis er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.
9. Amcan y brifysgol yw sicrhau bod profiad pob ymgeisydd yn un cadarnhaol, waeth beth fo'r canlyniad.
10. Bydd y brifysgol yn hyrwyddo arfer gorau yn y broses recriwtio a dewis a bydd yn adolygu ac yn monitro'r polisi yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.
11. Bydd y brifysgol yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Gwarchod Data wrth brosesu data personol fel rhan o'r Polisi Recriwtio a Dewis.

## Dogfennau Ategol

Polisi Recriwtio a Dewis - Gweithdrefnau ategol

## Deddfwriaeth berthnasol (Yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig iddynt)

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 (SI 2011/1064)
- Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Deddf Gwarchod Data 1998
- Deddf Ffiniau'r DU 2007
- Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974

## Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig Prifysgol Bangor (Yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig iddynt)

- Polisi contractau cyfnod penodol
- Polisi ar gyflogi milwyr wrth gefn yn y lluoedd arfog
- Polisi ar gysylltiadau personol staff a myfyrwyr
- Cynllun cydraddoldeb strategol